# Taflen Ffeithiau ar Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch gwasanaethau Amddiffyn Oedolion, a elwir weithiau yn Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed rhag Camdriniaeth ("POVA" yn Saesneg). Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.
Mae sawl corff yn gyfrifol am weithdrefnau ffurfiol i Amddiffyn Oedolion, gan gynnwys yr Heddlu, y GIG ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol (y Cyngor). Mae'r daflen ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch rôl y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dylid cwyno ynghylch y gofal a roddir i oedolyn agored i niwed i'r Cyngor yn y lle cyntaf, a bydd yna'n cael ei ystyried o dan weithdrefn gwyno statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel arfer, bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl ichi fod wedi cwblhau o leiaf cam 2 yn y weithdrefn hon cyn cwyno iddo ef. Fodd bynnag, os oes rhesymau da pam nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd yn ystyried derbyn cwyn cyn hynny.

## Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu:

- edrych ar gŵyn bod oedolyn agored i niwed wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i fethiant gwasanaeth neu fethiant gweinyddol gan awdurdod Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.
- edrych ar gŵyn ynghylch sut wnaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ddelio â gweithdrefn gwyno statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, neu unrhyw gam ohoni.
- edrych ar gŵyn bod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi methu â gweithredu argymhellion y swyddog ymchwilio yng Ngham 2, neu'r panel adolygu yng Ngham 3, yn y weithdrefn gwyno statudol.

## Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- ymchwilio'n uniongyrchol i gwynion o gam-drin. Cyfrifoldeb y cyrff sy'n cyflawni rôl Amddiffyn Oedolion yw hynny.

- edrych ar faterion gwahardd, disgyblu neu faterion personél yn ymwneud ag aelodau o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Materion i gadw mewn cof

Bydd yr Ombwdsmon yn gallu ymchwilio i gwynion ynghylch y camau a gymerodd y Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyswllt Amddiffyn Oedolion. Gall hefyd ymchwilio i gwynion ynghylch y gofal a roddwyd gan y Gwasanaeth Iechyd, er nad fel cwynion "POVA" y bydd y rhain yn derbyn sylw. Fodd bynnag, ni fydd yr Ombwdsmon yn gallu ystyried unrhyw gwynion am yr Heddlu. Os ydych am gwyno am rôl yr Heddlu mewn materion Amddiffyn Oedolion, rhaid ichi gwyno i'r Awdurdod Heddlu perthnasol.

Mae'r rhestr "POVA" wrth galon y cynllun POVA ac yn cynnwys gweithwyr gofal sydd wedi achosi niwed i oedolion agored i niwed a fu yn eu gofal; hefyd ar y rhestr mae gweithwyr gofal sy'n gyflogedig mewn cartrefi gofal cofrestredig, gweithwyr gofal a gyflogir gan ddarparwyr gofal personol cofrestredig yng nghartrefi personol pobl, a gofalwyr mewn lleoliadau i oedolion. Fodd bynnag, ers 12 Hydref 2009, mae'r rhestr POVA wedi'i chyfuno â rhestrau eraill a bellach yn cael ei gweinyddu gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol. Mae'r rhestr bellach yn cynnwys unigolion sydd wedi eu gwahardd gan yr Awdurdod Diogelu rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed mewn amryw o wahanol swyddi, gan gynnwys y rhan fwyaf o swyddi yn y GIG, y gwasanaeth carchardai, addysg a gofal plant.

## Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn: www.cymru.gov.uk/topics/health/socialcare/vulnerableadults/?lang=en

Efallai y byddwch am gysylltu â'r mudiadau canlynol am gyngor:
Gallwch gysylltu ag **Age Concern** drwy ffonio **0800 009966** neu drwy fynd i'w gwefan yn www.accymru.org.uk
Mae **Mind Cymru** yn rhoi cymorth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **0845 766 0163** neu drwy fynd i'r we yn http://www.mind.org.uk/mind_cymru
Mae **MENCAP Cymru** yn cynnig cymorth, gwybodaeth a chymorth ar unrhyw beth sy'n ymwneud ag anableddau dysgu. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **0808 808 1111** neu drwy fynd i'r we yn http://www.mencap.org.uk/landing.asp?id=13

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.
Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

**Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:**

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ